# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Wish Skin Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 1 Chwefror 2018

Dyddiad cyhoeddi: 12 Gorffennaf 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-78903-799-9

© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .... 6

3. Yr hyn a ganfuom .... 7

   Ansawdd profiad y claf .... 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .... 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .... 15

4. Beth nesaf? .... 17

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol .... 19

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .... 20

   Atodiad B – Cynllun gwella .... 21

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Wish Skin Clinic ar 1 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darperid gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd yr adeilad yn lân ac yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon uchel.
- Mae'r gwasanaeth wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth o weithgareddau gwella ansawdd i helpu i nodi meysydd i'w gwella

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Gwneud diweddariadau i'r gofrestr driniaeth gyffredinol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Wish Skin Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol oherwydd ei fod yn darparu triniaethau â thechnoleg golau pwls dwys a laser dosbarth 3B/4 yn 66 Commercial Road, Tai-bach, Port Talbot, SA13 1LR.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 7 Gorffennaf 2016.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy’n cynnwys y rheolwr cofrestredig (sydd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r laser/peiriant golau pwls dwys, ond i raddau cyfyngedig), tri gweithredwr laser ychwanegol a derbynnydd.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i bobl dros 16 mlwydd oed:

System Golau Pwls Dwys Excelight:

- Lleihau blew yn barhaol
- Gwaredu gwythiennau coch
- Adfywio’r croen
- Triniaethau acne.

System Laser Q-Plus C Nd:YAG a Ruby:

- Gwaredu tatŵs
- Laser ffracsiynol
- Ail-wynebu'r croen, gan gynnwys triniaethau acne

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod staff wedi ymroddi i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer cleifion, a gwnaeth cleifion sylwadau canmoliaethus ynghylch y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u derbyn.

Darperid gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod triniaethau.

Roedd angen gwneud diweddariadau i'r gofrestr driniaeth gyffredinol.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Derbyniwyd cyfanswm o 15 holiadur, yn cynnwys cleifion a oedd yn newydd i'r clinig (mynychu ers llai na chwe mis) a chleifion rheolaidd y clinig (wedi bod yn mynychu am rhwng un a phum mlynedd).

Roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, a nododd cleifion fod y gofal a'r driniaeth a ddarperid ar eu cyfer yn rhagorol. Roedd sylwadau cleifion yn canmol y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y clinig yn cynnwys y canlynol:

> *"Proffesiynol iawn, gwasanaeth ardderchog a gwybodaeth ragorol am driniaeth. Fe ddof i'n ôl"*
>
> *"Dw i wedi gweld gwelliannau sylweddol ers mynychu Wish Skin Clinic; mae'r merched bob amser ar gael i helpu gydag unrhyw gwestiynau neu bryderon. Dw i bob tro yn cael fy nghyfarch â gwên ac mae'r amgylchedd bob amser yn groesawgar, yn broffesiynol ac yn lân. Cyngor ôl-ofal rhagorol, ac maen nhw'n rhannu'r wybodaeth sydd ganddynt i'ch addysgu chi, y claf, hefyd, a dw i wrth fy modd yn gwrando arnyn nhw"*

*"Dw i'n cael croeso gwych bob amser a dw i'n hyderus y bydda' i'n derbyn triniaeth o ansawdd uchel"*

*"Ers cwblhau fy nghynllun croen yn Wish, does dim geiriau i fynegi pa mor hapus ydw i gyda'r canlyniadau dw i wedi eu cael. O'r diwedd, wedi cyrraedd 37 mlwydd oed, mae gennyf groen dw i wir yn teimlo'n hyderus yn ei gylch, diolch i bawb"*

## Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnid i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, ac roedd hon yn cael ei gwirio ar gyfer newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol er mwyn sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel.

## Urddas a pharch

Cyn unrhyw driniaeth, cynhelid trafodaethau â chleifion i sicrhau eu bod yn deall sut y byddai'r driniaeth yn cael ei chynnal. Roedd digon o le yn yr adeilad i gynnal sgyrsiau'n breifat er mwyn trafod gwybodaeth bersonol heb i bobl eraill glywed.

Roedd yr ystafell driniaeth yn cael ei chloi o'r tu mewn pan oedd triniaethau'n cael eu cynnal er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Pan oedd hynny'n berthnasol, roedd cleifion yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain i ddadwisgo, ac roedd rholyn gwely ar gael i amddiffyn urddas cleifion pan oeddent yn derbyn triniaeth.

Bu i'r holl gleifion a gwblhaodd holiadur gytuno'n gryf fod staff yn gwrtais wrthynt bob tro, a'u bod yn garedig ac yn sensitif wrthynt pan oeddent yn cynnal gofal a thriniaeth. Gwnaeth un claf y sylw canlynol ynghylch y staff yn ei holiadur:

*"Dw i bob amser yn hapus iawn gyda fy nhriniaethau. Mae'r holl staff mor gyfeillgar a pharod eu cymwynas, yn enwedig y fenyw sy'n cynnal fy nhriniaethau. Mae hi wastad yn rhoi croeso mawr ichi ac yn gwneud ichi deimlo'n gyfforddus dros ben, ac mae hi mor broffesiynol"*

## Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Gwelsom fod digon o wybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth. Roedd hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb gyda gweithredwr laser neu

olau pwls dwys cyn i’r driniaeth ddechrau. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniadau tebygol y driniaeth a gynigir.

Gwnaeth pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur gytuno'n gryf ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth, gan gynnwys y risgiau, y gwahanol opsiynau triniaeth a oedd ar gael, costau'r gwasanaethau a'r gwasanaethau ôl-ofal; dywedodd un claf:

> *"Staff ac amgylchedd gwych. Mae triniaethau'n cael eu hegluro'n llawn a'u cynnal mewn modd proffesiynol iawn."*

Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gytuno bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf clwt cyn i driniaeth ddechrau ac yn derbyn cyngor ôl-ofal ar ôl y driniaeth. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth ysgrifenedig fanwl yn cael ei rhoi i gleifion.

Roedd gwybodaeth fanwl ynghylch triniaethau hefyd ar gael ar wefan y gwasanaeth i helpu cleifion i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu gofal.

Canfuom fod cydsyniad i driniaeth yn cael ei dderbyn oddi wrth gleifion yn yr apwyntiad cychwynnol ac yn ystod unrhyw apwyntiadau dilynol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion a datganiad o ddiben ar gael, a chanfuom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

### Cynllunio a darparu gofal

Roedd yr holl gleifion yn cael apwyntiad ymgynghori cyn i’r driniaeth ddechrau, a oedd yn cynnwys prawf clwt i helpu i wneud penderfyniad ynghylch addasrwydd a chanlyniad tebygol y driniaeth. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a dogfennau ôl-ofal, a oedd yn cynnwys risgiau a manteision triniaeth. Gwnaethom drafod yr arweiniad a oedd yn cael ei rannu ar lafar â chleifion yn ystod y cam ymgynghori, a oedd hefyd yn cynnwys trafodaeth am y risgiau a’r manteision.

Canfuom fod nodiadau cleifion unigol ar gael a bod y rhain yn fanwl. Gwnaethom ganfod hefyd fod y gwasanaeth yn cynnal cofrestr driniaeth gyffredinol a oedd yn benodol i bob peiriant golau pwls dwys/laser. Gwelsom fod angen diweddaru'r rhain i sicrhau eu bod yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys y canlynol: gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â dulliau

adnabod cleifion, manylion unrhyw effeithiau negyddol a llofnod awdurdodi'r gweithredwr laser/golau pwls dwys.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gofrestr driniaeth yn cael ei diweddaru i sicrhau ei bod yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y clinig a'r ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr daear ac roedd yn hawdd i gleifion a all fod ag anawsterau symudedd neu sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad atynt.

## Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Canfuom fod gan y gwasanaeth nifer o ddulliau ar gyfer casglu adborth cleifion ar y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn. Roedd cleifion yn gallu rhoi adborth trwy nifer o sianeli cyfryngau cymdeithasol, roedd holiaduron ar gael yn y dderbynfa ac roedd y clinig hefyd yn cysylltu â chleifion trwy e-bost i geisio eu safbwyntiau. Canfuom fod y wybodaeth yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod gan y gwasanaeth drefniadau addas ar waith i ddarparu triniaeth i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau da a oedd yn ei alluogi i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ac roedd wedi ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel.

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn yr adeilad a'r bobl sy'n ymweld.

Gwelsom dystiolaeth fod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod y gwiriadau gwifrau trydanol ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu'r diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân i'w gweld yn glir. Roedd asesiad risg tân ar waith, a gwelsom fod staff wedi derbyn hyfforddiant diogelwch tân a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth fynediad i becyn cymorth cyntaf a gwelsom fod y cynnwys o fewn eu dyddiadau dod i ben ac yn addas i'r diben. Gwelsom dystysgrifau i gadarnhau bod y staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

### Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad yn weledol lân a thaclus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad.  Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus –  dywedodd un claf y canlynol yn ei holiadur:

*"Mae'r clinigwyr yn wybodus iawn, yn lân ac yn daclus ac yn gyfeillgar iawn. Mae'r adeilad bob amser yn daclus, yn lân ac yn gymen. Mae'r mannau cyhoeddus wedi'u cynnal a'u cadw'n dda"*

Rhoddwyd disgrifiad manwl gan y gwasanaeth o'r trefniadau rheoli heintiau a gwelsom fod polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd gwiriadau rheolaidd o'r trefniadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal gan y gwasanaeth i helpu i sicrhau bod trefniadau ac amserlenni glanhau priodol yn cael eu cynnal.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu gwastraff clinigol.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion sy'n 16 mlwydd oed neu'n hŷn.

Canfuwyd gennym fod polisïau diogelu manwl ar waith i gefnogi staff pe bai angen. Gwelsom hefyd dystysgrifau i ddangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu oedolion a phlant.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom ddogfennau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys. Gwelsom hefyd dystysgrifau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[1] yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Gwelsom fod cytundeb ar waith gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau, a bod rheolau lleol a oedd yn manylu sut i weithredu'r peiriannau mewn modd diogel, a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Gwelsom dystysgrifau'n dangos bod y peiriannau wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau rheolaidd a oedd yn cael eu cynnal ar y peiriant, ac roedd gan y gwasanaeth system ar waith i gofnodi unrhyw

[1] Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

ddiffygion neu godau camgymeriad i hyrwyddo defnyddio’r peiriannau mewn modd diogel.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau a oedd wedi'u cymeradwyo gan weithiwr meddygol proffesiynol.

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan yr ystafelloedd triniaeth gloeon ar y tu mewn i'r drws, a oedd yn cael eu defnyddio wrth gynnal triniaethau. Gwelsom arwyddion rhybuddio ar y tu allan i'r drysau hefyd i nodi bod y peiriannau yn cael eu defnyddio. Roedd yr allweddi'n cael eu tynnu o'r peiriannau ar ôl cynnal triniaeth a'u storio'n ddiogel, i atal unrhyw ddefnydd heb awdurdod ac i hyrwyddo diogelwch cleifion a staff.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr peiriannau laser/golau pwls dwys. Pan wnaethom ei archwilio, gwelsom fod y cyfarpar diogelu mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg. Dywedwyd wrthym fod y cyfarpar diogelu llygaid yn cael ei wirio'n weledol bob dydd a rhwng apwyntiadau cleifion, er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd y cyfarpar diogelu llygaid hefyd wedi'i labelu i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio gyda'r peiriant laser/golau pwls dwys cywir.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy’n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod y cynghorydd amddiffyn rhag laserau wedi ymweld â'r safle yn ddiweddar ac wedi cwblhau asesiad risg wedi'i ddiweddaru.

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod systemau addas ar waith, er mwyn asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, roedd y gwasanaeth yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o arwain y gofal, ac yn cynnal archwiliadau o gofnodion i sicrhau bod y wybodaeth yn gyson.

### Rheoli cofnodion

Gwnaethom nodi bod darpariaeth dda ar gyfer diogelu nodiadau a data cleifion, a oedd yn cael eu cadw'n ddiogel i atal mynediad heb awdurdod.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Y rheolwr cofrestredig a oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd a gweithredu'r peiriannau laser a golau pwls dwys.

Canfuom fod systemau ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Roedd gan y system hefyd systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw gwynion a/neu sylwadau canmoliaethus yn derbyn sylw'n brydlon.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Wish Skin Clinic ac mae'n derbyn cymorth gan dri gweithredwr laser a golau pwls dwys o ddydd i ddydd.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a gwelwyd tystiolaeth eu bod oll wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Byddai staff yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i bolisïau a/neu weithdrefnau i sicrhau bod ganddynt fynediad at y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd rhaid i staff lofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall unrhyw newidiadau.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod cofnodion yn cael eu llunio.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

### Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwnaethom ganfod bod gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno ar waith. Disgrifiodd staff broses addas ar gyfer ymdrin â chwynion a'u cofnodi'n briodol, ac roedd hon yn dangos bod y gwasanaeth yn dysgu o unrhyw bryderon neu gwynion a godwyd.

Nid oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru.

## Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, gan gynnwys Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gweithredwyr ar gyfer y peiriannau.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn derbyn arfarniadau rheolaidd am eu gwaith, a gwelsom gofnodion hyfforddiant staff manwl a oedd yn ymwneud â rôl unigolyn yn y gwasanaeth.

## Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Canfuom fod gan y gwasanaeth dîm staff sefydlog a ffeiliau staff manwl. Canfuom fod hyfforddiant ymsefydlu wedi cael ei gwblhau a, lle oedd hynny'n briodol, cofnodion wedi'u cynnal.

Roedd gan yr holl staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw’r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy’n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o’r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Wish Skin Clinic

## Dyddiad yr arolygiad: 1 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gofrestr driniaeth yn cael ei diweddaru i sicrhau ei bod yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol. | Rheoliad 23 (1)(a)(i)<br>Safon 8. Cynllunio a darparu gofal. Cynllunio a darparu gofal | Mae dulliau ychwanegol o adnabod cleifion (dyddiad geni), manylion unrhyw effeithiau negyddol a llofnodion gweithredwyr wedi cael eu hychwanegu at y cofnod triniaeth. | Jeremy Isaac | Cwblhawyd Mai 2018 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Jeremy Isaac**

**Swydd: Y Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad:27/6/18**